**Yn unol â Rheol Gweithdrefn 10.5, dyma ofyn am ganiatâd y Llywydd i gyflwyno'r Cynnig Brys hwn i'r Cyngor Llawn ar 8 Mawrth 2023.**

Mae testun y Cynnig wedi codi rhwng y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno Cynigion a dyddiad y cyfarfod. Rydyn ni o'r farn bod y Cynnig yn galw am benderfyniad brys er budd y cyhoedd nad oes modd ei drafod drwy ddulliau eraill.

Rhybudd o Gynnig **sydd wedi'i gyflwyno yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol S. Emanuel ac W. Jones.**

Yn anffodus, yr wythnos ddiwethaf cododd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) arwyddion ar lwybr coetir Pen-pych yn rhybuddio cerddwyr nad oedd mynediad i'r cyhoedd gan fod y llwybr yn anniogel oherwydd “tirlithriadau niferus.”

Mae ward Treherbert yn falch o fod yn gartref i rai o'r lleoedd gorau a golygfeydd harddaf y sir, gyda mynydd pen bwrdd Pen-pych yn goron ar y cyfan.

Mae Pen-Pych yn atyniad mawr i dwristiaid ac yn nodwedd ddaearyddol leol sy’n denu miloedd o gerddwyr bob blwyddyn. Mae hyn yn ei dro yn rhoi hwb amhrisiadwy i’n heconomi leol.

Mae colli’r llwybr hwn yn ddinistriol i’r economi leol a’r cymunedau sy’n rhan o ward Treherbert. A ninnau'n Gynghorwyr lleol, rydyn ni wedi'n siomi na cheisiodd CNC drafod y mater â ni na chwaith roi gwybod i ni cyn cymryd y camau hyn.

Er bod diogelwch trigolion ac ymwelwyr o’r pwys mwyaf, a’i bod yn iawn i rybuddio cerddwyr i beidio â defnyddio llwybrau anniogel, rydyn ni wedi'n siomi â'r diffyg cyfathrebu gan CNC wrth amlinellu unrhyw ymdrechion i wneud y llwybr yn ddiogel neu eu dyheadau ar gyfer yr ardal yn y dyfodol.

A ninnau eisoes wedi cyflwyno sylwadau i CNC yn ein swyddogaeth yn Aelodau lleol, dyma annog y Cyngor i nodi’r canlynol:

- Yr effaith sylweddol y bydd colli Pen-Pych yn ei chael ar yr economi leol ym mhen uchaf Cwm Rhondda Fawr a gweddill y fwrdeistref sirol
- Bod ein hasedau naturiol yno i bawb eu mwynhau. Maen nhw'n unigryw i'n bwrdeistref sirol ac yn ein gosod ni ar wahân i bawb arall
- Er bod diogelwch bob amser o'r pwys mwyaf, dylid cynnwys Aelodau lleol yn rhan o faterion o'r fath bob amser lle bo modd

Dyma ofyn felly i’r Cyngor benderfynu:

- Gofyn ar frys i Arweinydd y Cyngor ysgrifennu at Brif Weithredwr Cyfoeth Naturiol Cymru a’r Gweinidog perthnasol yn Llywodraeth Cymru i sefydlu beth yw eu dyheadau ar gyfer llwybr coetir Pen-Pych yn y dyfodol a chyflwyno sylwadau ar ran trigolion ward Treherbert ynghylch pwysigrwydd y safle